

Cylchlythyr Ffês 3

Pasg 2019



Dewisiadau Blwyddyn 9

Yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 9 gyfle i fynychu sesiwn holi ac ateb er mwyn cael gwybodaeth am yr amrywiaeth o bynciau sydd ar gael iddynt astudio fel TGAU. Disgyblion blwyddyn 10 yr ysgol a fu'n arwain y prynhawn, gan drafod y pynciau maent wedi eu dewis yn aeddfed, arddangos eu gwaith ac ateb cwestiynau'r disgyblion.

'Roedd y prynhawn yn ddefnyddiol ar gyfer cael gwybodaeth am yr holl bynciau, ac roedd yn braf cael dysgu gan ddisgyblion sydd yn astudio'r pynciau yn barod.' (Disgyblion Blwyddyn 9)

Yn ychwanegol i'r prynhawn holi ac ateb, mae disgyblion blwyddyn 9 wedi derbyn cyflwyniadau gan athrawon y pynciau dewis, cwblhau cwis gyrfaoedd Gyrfya Cymru ac wedi derbyn gwers ar wneud eu dewisiadau ar-lein.

Yr Urdd

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir yn ddiweddar. Llwyddodd parti merched blwyddyn 7-9 gipio'r ail wobwr yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Lois Hughes a enillodd yr unawd i ferched dan 19 oed, a phob lwc iddi yng Nghaerdydd ym mis Mai. Yn ogystal, llongyfarchiadau i Awel Kelly a Tesni Pugh. Mae'r ddwy wedi derbyn cyntaf am em eu gwaith Celf, ac yn cystadlu yn y genedlaethol. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a fu'n hyfforddi, i'r rhieni am gefnogi, ac i Glesni, Erin a Lia a fu'n stiwardio yn ddiflino yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Edwards am ennill cystadleuaeth Cogurdd.



Dyddiadau Allweddol:

3.5.19: Seremoni Ffarwelio Bl 11 (Rhieni a disgyblion)
6:5:19: Gŵyl y Banc
7:5:19: Arholiadau TGAU yn dechrau
7.5.19: Profion Cenedlaethol
27:5:19-31:5:19: Hanner Tymor

Diwrnod 'Comic Relief'

Llwyddodd yr ysgol i gasglu £498.25 tuag at yr elusen. Diolch yn fawr i bawb a fu'n cefnogi.

Pob Lwc i Flwyddyn 10 ac 11

Mae'r cyfnod prysur arholiadau TGAU bron wedi ein cyrraedd. Pob lwc i bob disgybl blwyddyn 10 ac 11 a fydd yn sefyll arholiadau ym mis Mai a Mehefin.

Teithiau

Mae nifer o deithiau wedi eu cynnal yn ystod y tymor gan gynnwys teithiau i wyllo pêl-droed yn Manchester City, gem rygbi Cymru dan 20 ym Mharc Eirias a thaith i wyllo sioe gerdd Annie. Diolch i'r athrawon am eu gwaith yn trefnu'r teithiau.

Gwybodaeth i Rieni Blwyddyn 11

Fel rydym eisoes wedi ei gyflwyno i chi, mae nifer o bethau mewn lle i gefnogi'r disgyblion trwy gyfnod yr arholiadau. Cliciwch ar y linc isod i gael mwy o fanylion am amserlen adolygu Pasg ac amserlen ddiwygiedig Blwyddyn 11 trwy gyfnod yr arholiadau.

<http://www.ysgolbroidris.cymru/index.html>

Cystadleuaeth 'F1 in Schools'

Yn ddiweddar, bu criw o ddisgyblion blwyddyn 10 yn brysur yn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth yma yn Llandudno. Llwyddodd Dylan Owen, Kieron Powell, Ethan Lovegrove, Dylan Williams, Jack Main a Tomos Price i ddylunio a chreu model o gar F1. Daeth y tîm sef 'Idris Burnout' yn drydydd yn y ras gyda dim ond 0.04 eiliad rhyngddynt a'r tîm buddugol. Enillwyd y tlws 'Future stars' oherwydd fe llwyddodd yr hogiau i roi argraff dda ar y barnwyr ac roedd y barnwyr yn canmol cyd-weithio ac ymdrech y tîm. Mae'r barnwyr yn edrych ymlaen at weld beth sydd gan y tîm i'w gynnig blwyddyn nesaf!

Llwyddiannau Addysg Gorfforol

Victoria Redman: Wedi ei dewis i sgwad rygbi Cymru dan 18 oed.
Gruff Llywelyn: Wedi cael ei ddewis i dîm criced Gwynedd a Môn.
Tîm rygbi dan 15: Wedi llwyddo i gyrraedd y rownd cynderfynol Plat Eryri
Llwyddiant athletau Eryri: Steven Cartwright, Tyler Bryant, Frankie Danks-Kemish, Lowri Parry, Heledd Richards, Owen Davies, Corrina Riches a Keeley Ward i gyd wedi llwyddo cyrraedd rownd Eryri.

Llongyfarchiadau i bawb!